# Llawlyfr Dewisiadau

## Mawrth 2026







YSGOL EIFIONYDD • YMLAEN

# Options Handbook

## March 2026

# Rhagair / Foreword

Mae'n bleser gennyf gyflwyno'r Llawlyfr hwn i sylw disgyblion Blwyddyn 9 a'u rhieni / gwarchodwyr, gan obeithio y bydd o gymorth wrth i ni gydweithio i benderfynu ar gyrsiau'r disgyblion.  Ynghlwm mae cyfres o TGAU newydd yn cael ei gyflwyno eleni am y tro cyntaf. Diolchaf i bawb a fu'n cynorthwyo i gynhyrchu'r Llawlyfr yma.

Gofynnwn i ddisgyblion mewn ymgynghoriad â'u rhieni / gwarchodwyr a'u hathrawon ddewis un cwrs o bob colofn ddewis ar y Ffurflen Ddewisiadau a geir ar ddiwedd y Llyfryn. Ceir manylion pellach yn y Llyfryn am bob un o'r pynciau sy'n cael eu cynnig gan yr ysgol.

Mae'n bwysig sylweddoli bod y cyrsiau yn parhau dros ddwy flynedd ac felly bod angen ymdrech gyson ym mlynyddoedd 10 ac 11 er mwyn sicrhau llwyddiant. Bydd y disgyblion sydd wedi cyrraedd y safon angenrheidiol yn y gwahanol bynciau yn sefyll arholiadau allanol a/neu asesiadau allanol.

*I am pleased to present this Handbook for the attention of Year 9 pupils and their parents / guardians, trusting that it will be of assistance as we work together to decide on the pupils' courses. We have attached a series of new GCSEs that are being introduced this year for the first time.  I thank everyone associated with the production of this Handbook.*

*We ask pupils to select, in consultation with parents / guardians and teachers, one course from each of the option columns on the Option Form found at the end of the Handbook. Further details are provided in the handbook about each subject that is offered by the school.*

*It is imperative to realise that the courses are a full two year commitment and that consistent effort will be required over years 10 and 11 in order to ensure success. Pupils who reach the required standard in the various subjects will face external examinations and/or external assessments.*

Dymuniadau gorau ar gyfer y dyfodol /

*Accept my best wishes for the future.*

Dewi Bowen
Pennaeth  / *Headteacher*

Mawrth / March, 2026

# Pa ddewis sydd gen i?
# What can I choose?

Ym mlynyddoedd 10 ac 11 yn Ysgol Eifionydd bydd yn rhaid i chwi ddilyn y Cwricwlwm Craidd ynghyd â 3 phwnc dewisol o'ch dewis eich hunain.

Mae'r cwricwlwm craidd yn cynnwys:

- CYMRAEG IAITH A LLENYDDIAETH
- SAESNEG IAITH A LLENYDDIAETH
- MATHEMATEG a RHIFEDD
- GWYDDONIAETH
- ADDYSG GORFFOROL
- CREFYDD, GWERTHOEDD A MOESEG
- ADDYSG BERSONOL A CHYMDEITHASOL
- BAC

**MAE'N BWYSIG:**

1. Darganfod popeth am y pwnc cyn ei ddewis. **Unwaith mae'r cwrs wedi dechrau ni fydd yn bosib newid pwnc.**
2. Trafod gyda'ch athrawon - ganddynt hwy y mae'r wybodaeth sydd ei angen arnoch;
3. Trafod gyda'ch rhieni.

*In years 10 and 11 at Ysgol Eifionydd you will have to follow the core curriculum and 3 optional subjects which you yourselves will have chosen.*

*The core curriculum Includes:*

- *WELSH LANGUAGE AND LITERATURE*
- *ENGLISH LANGUAGE AND LITERATURE*
- *MATHEMATICS and NUMERACY*
- *SCIENCE*
- *PHYSICAL EDUCATION*
- *RELIGION, VALUES AND ETHICS*
- *PERSONAL AND SOCIAL EDUCATION*
- *BAC*

***IT IS IMPORTANT TO:***

1) *Find out everything about the subject before choosing it.*
   ***Once you have started the course you will have to stick with it for two years.***
2) *Discuss with your teachers who have all the information needed.*
3) *Discuss with your parents.*

# Gyrfaoedd / Careers

Mae rhaglen Addysg a Chyfarwyddyd Gyrfaoedd ac Addysg Gysylltiedig â Gwaith gynhwysfawr yn cael ei chynnig gan yr ysgol mewn partneriaeth gyda Gyrfa Cymru, Coleg Meirion Dwyfor a chyflogwyr. Ein bwriad yw helpu'r disgyblion i:

- Wella eu hunan-ymwybyddiaeth a datblygiad personol
- Fod yn ymwybodol o'r cyfleoedd gyrfa mewn byd gwaith ac addysg 16+
- Ddatblygu'r sgiliau angenrheidiol ar gyfer eu gyrfa.
-

Fel rhan o'r rhaglen cynigir:

- Gweithdai e.e. Menter a Sgiliau
- Ffug Gyfweliadau
- Ymweliadau â'r coleg
- Cyfweliadau gyrfaoedd gyda Chynghorydd Gyrfa
- Paratoad ar Opsiynau 14+ a 16+
- Siaradwyr allanol e.e. cyflogwyr a chynrychiolwyr colegau
- Gyrfa Cymru.com

Mae'r ysgol yn cydnabod pwysigrwydd cyfraniad rhieni i'r agwedd yma o ddatblygiad eu plentyn ac mae croeso i rieni gysylltu gyda'r ysgol os oes ganddynt unrhyw gwestiynau neu ofidiau.

*The school offers a comprehensive programme for Careers Education and Guidance and Work Related Education in partnership with Careers Wales, Coleg Meirion Dwyfor and employers. Our intention is to help pupils to:*

- *Improve their personal development and self-awareness*
- *Be aware of the career opportunities in the world of work and 16+ education*
- *Develop the necessary skills for career development*
-

*The following is offered as part of the programme:*

- *Workshops e.g. enterprise and skills*
- *Mock interviews*
- *Visits to colleges*
- *Interviews with a Careers Advisor*
- *Preparation for options 14+ & 16+*
- *Guest speakers e.g. employers and college representatives*
- *Careers Wales.com*

*The school recognises the importance of the contribution of parents to this aspect of their child's development and parents are welcome to contact the school if they have any queries or concerns.*

CYMHWYSTER
BAGLORIAETH CYMRU | WELSH BACCALAUREATE
QUALIFICATION

Bydd Bagloriaeth Cymru yn helpu dysgwyr i ddatblygu’r sgiliau sydd eu hangen arnynt ar gyfer addysg uwch, byd gwaith a bywyd. Bydd yn cael ei hastudio ynghyd â dewisiadau traddodiadol TGAU dysgwyr neu ar y cyd â chymwysterau galwedigaethol.

Bydd Bagoloriaeth Cymru yn canolbwyntio’n glir ar y sgiliau canlynol:

- Llythrennedd
- Rhifedd
- Llythrennedd Digidol
- Meddwl yn feirniadol a datrys problemau
- Cynllunio a threfnu
- Creadigrwydd ac arloesi
- Effeithiolrwydd personol

Bydd dysgwyr yn datblygu ac yn defnyddio’r sgiliau hyn, a bydd y sgiliau’n cael eu hasesu trwy gwblhau prosiect unigol a dwy ‘her’.

- Her dinasyddiaeth fyd eang
- Her menter a chyflogadwyedd

Mae’r BAC gyfwerth ac un TGAU ac fe fydd yn cael ei raddio.

The Welsh Baccalaureate will help learners develop the skills they will need for college, university, employment and live. It will be studied alongside learners’ traditional choices at GCSE or vocational qualifications.

The Welsh Baccalaureate will have a clear focus on the following skills.

- Literacy
- Numeracy
- Digital literacy
- Critical thinking and problem-solving
- Planning and organisation
- Creativity and innovation
- Personal effectiveness

Learners will develop and use these skills, and the skills will be assessed, by completing an individual project and two ‘challenges’.

- Global citizenship challenge
- Enterprise and employability challenge

The BAC will be graded and is worth one GCSE.

Am wybodaeth pellach cysylltwch â / For further information contact:

Mrs. Catrin Elan Roberts

# Cynnwys / Contents


Rhagair / Foreword.
Pa ddewis sydd gen i / What can I choose?
Gyrfaoedd / Careers.
Bagloriaeth Cymru / Welsh Baccalaureate


| | |
|---|---|
| **Pynciau Craidd TGAU a Llwybrau Mynediad**<br><br>**Core Subjects GCSE and Learning Pathways** | • **Cymraeg Iaith a Llenyddiaeth (Dwyradd) / Welsh Language and Literature (Double Award)**<br>• **Cymraeg Craidd (Ail Iaith) / Core Welsh (Second Language)**<br>• **Saesneg Iaith a Llenyddiaeth (Dwyradd) / English Language and Literature (Double Award)**<br>• **Mathemateg a Rhifedd (Dwyradd) / Mathematics and Numeracy (Double Award)**<br>• **Gwyddoniaeth Dwyradd / Double Award Science Gwyddoniaeth Integredig (Unigol) / Integrated Science (Singel Award)** |
| **Pynciau Dewis TGAU neu BTEC**<br><br>**Optional Subjects GCSE or BTEC** | • **Bwyd a Maeth / Food and Nutrition**<br>• **Tecstiliau / Textiles**<br>• **Dylunio a Thechnoleg Dylunio Cynnyrch / Design and Technology Product Design**<br>• **Astudiaethau Crefyddol / Religious Studies**<br>• **Daearyddiaeth / Geography**<br>• **Hanes / History**<br>• **Celf / Art**<br>• **Cerdd / Music (Ysgol Glan y Môr)**<br>• **Drama**<br>• **Addysg Gorfforol / Physical Education**<br>• **Ffrangeg / French**<br>• **BTEC Busnes Lefel 2/1 / BTEC Business Level 2/1**<br>• **Iechyd a Gofal Cymdeithasol, a Gofal Plant TGAU / Health and Social Care, Childcare GCSE**<br>• **Technoleg Ddigidol TGAU / Digital Technology (Ysgol Glan y Môr)**<br>• **Sgiliau Defnyddiwr Technoleg Gwybodaeth Lefel 1 TLM Information Technology User Skills Level 1 TLM**<br>• **Llythrennedd Ariannol Lefel 1 TLM Financial Literacy Level 1 TLM**<br>• **Agored Cymru – Addysg at Byd gwaith / Agored Cymru – Work Related Education**<br>• **Dug Caeredin ac Agored Cymru, Dysgu yn yr Awyr Agored / Duke of Edinburgh + Agored Cymru Learning in the outdoors**<br>• **BTEC Amaethyddiaeth Lefel 2 / BTEC Agriculture Level 2 (CMD - Glynllifon)**<br>• **BTEC Peirianneg Lefel 2/1 / BTEC Engineereing Level 2/1 (CMD - Pwllheli)**<br>• **BTEC Cynhyrchu Cyfryngau Creadigol Digidol / BTEC Media Production (CMD - Pwllheli)** |

Dewisiadau Blwyddyn 10, 2026 – 2028.
Year 10 Options, 2026 – 2028.

# TGAU Cymraeg: Iaith a Llenyddiaeth (Dwyradd)

**CYFLWYNIAD**

“Mae'r Gymraeg yn un o drysorau Cymru. Mae'n rhan o'r hyn sy'n ein diffinio fel pobl ac fel cenedl." (Llywodraeth Cymru, Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr, 2017, t.2). Uchelgais Llywodraeth Cymru yw cyrraedd y targed 'miliwn o siaradwyr Cymraeg' erbyn 2050 ac rydych chi'n un o'r miliwn! Dyma gymhwyster cyffrous, newydd ble byddwch yn astudio cyfoeth o lenyddiaeth fydd yn sbarduno'r dychymyg, yn meithrin eich chwilfrydedd ac yn eich paratoi i gyfathrebu a byw drwy gyfrwng y Gymraeg.

**BETH FYDDAF YN EI ASTUDIO?**

**UNED 1 (Naratif)** - yn yr uned hon byddwch yn astudio nofel gyfoes Gymraeg ac yn dysgu sut i werthfawrogi'r cynnwys, cymeriadau, themâu a phlot. Byddwch yn ymateb yn bersonol a chreadigol i'r nofel hefyd.

**UNED 2 (Hunaniaeth**) - yn yr uned hon byddwch yn astudio testun gweledol h.y. ffilm neu raglen deledu, ac yn cynnal trafodaeth grŵp i drafod y plot, cymeriadau a themâu. Byddwch yn datblygu eich sgiliau gwrando ac ymateb yn ogystal â’r sgil o gyfathrebu’n hyderus yn y Gymraeg.

**UNED 3 (Agweddau)** - yn yr uned hon byddwch yn astudio casgliad o gerddi er mwyn dysgu sut i werthfawrogi eu cynnwys, arddull a neges. Byddwch hefyd yn cyflwyno gwybodaeth ar lafar yn unigol ar destun o'ch dewis.

**UNED 4b (Cysylltiadau Ieithyddol)** - yn yr uned hon byddwch yn darllen amrywiaeth o destunau ysgrifenedig ac yn dysgu sut i gyfuno a chrynhoi gwybodaeth. Byddwch hefyd yn ymateb yn greadigol i'r testunau mewn amrywiaeth o ffurfiau gwahanol.

**UNED 5 (Ymateb a Chreu)** - yn yr uned hon byddwch yn ymateb â rhyngweithio ar lafar fel grŵp i destun cyfoes gan ddatblygu'ch sgiliau mynegi barn. Byddwch hefyd yn cael y cyfle i ysgrifennu'n greadigol fel rhan o'r gwaith cwrs.

**UNED 6 (Cyfleu Ystyr)** - yn yr uned hon byddwch yn astudio casgliad o straeon byrion ac yn dysgu sut i gymharu a gwerthfawrogi testunau llenyddol.

**SUT BYDDAF YN CAEL FY ASESU?**

**ARHOLIAD** - Bydd tri arholiad ysgrifenedig werth 60% o'r cymhwyster Dwyradd yn unedau 1, 4b a 6. Bydd arholiad unedau 1 a 6 yn 90 munud o hyd, gydag arholiad uned 4b yn 120 munud o hyd. Bydd yr arholiadau'n cynnwys amrywiaeth o gwestiynau darllen a deall, atebion estynedig a chyfle i ysgrifennu'n greadigol.

**ASESIAD DI-ARHOLIAD** - Bydd pum asesiad di- arholiad werth 40% o'r cymhwyster Dwyradd yn unedau 2, 3 a 5. Bydd dau asesiad llafar grŵp, un asesiad llafar unigol a dau asesiad ysgrifenedig (gwaith cwrs).

**PA SGILIAU FYDDAF YN EU DATBLYGU?**

Mae TGAU Iaith a Llenyddiaeth Gymraeg yn bwnc craidd fydd yn eich helpu i ddatblygu amrywiaeth o’r sgiliau isod:

- datblygu sgiliau a strategaethau dysgu iaith
- datblygu sgiliau darllen, gwrando, siarad ac ysgrifennu
- datblygu sgiliau rhyngweithio mewn par neu grwp gan wrando ar eraill, mynegi barn a dod i gasgliadau
- datblygu sgiliau creadigol yn ysgrifenedig a thrwy ddarllen ystod eang o ffurfiau
- datblygu sgiliau gwerthfawrogi llenyddiaeth
- datblygu sgiliau siarad cyhoeddus
- meithrin chwilfrydedd ynglŷn â'r Gymraeg ar gyfer astudiaethau pellach, yn y gweithle a'r gymuned.

**GYRFAOEDD YM MAES 'IAITH A LLENYDDIAETH GYMRAEG'**

**TGAU Iaith a Llenyddiaeth Gymraeg** - diben y cymhwyster hwn yw eich ysbrydoli i fod yn ddinasyddion sy'n ymfalchïo yn niwylliant, hanes ac iaith eich gwlad. Mae swyddi yng Nghymru yn aml yn gofyn am y gallu i siarad Cymraeg fel rhywbeth hanfodol neu ddymunol. Os oes gennych chi gymhwyster TGAU Cymraeg Iaith a Llenyddiaeth rydych chi ar y blaen i'r lleill cyn dechrau! Mae'r gallu i siarad Cymraeg yn bwysig ac o fantais ym mhob maes gan gynnwys addysg, iechyd a gofal, y llywodraeth, y cyfryngau, adloniant, chwaraeon a llawer mwy. Mae'r daith at y miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050 yn un cyffrous ac rydych chi'n rhan ohoni.

**Am wybodaeth pellach cysylltwch â: Mrs. Eirian M. Roberts**

# GCSE Welsh Language and Literature (Double Award)

**INTRODUCTION**

"The Welsh language is one of the treasures of Wales. It is part of what defines us as a people and as a nation." (Welsh Government, Cymraeg 2050: A million Welsh speakers, 2017, p.2). It is the Welsh Government's ambition to reach the target of 'a million Welsh speakers' by 2050 and you are one of the million! This is a new and exciting qualification in which you will be studying a wealth of literature that will ignite your imagination, build your enthusiasm and prepare you to communicate and live through the medium of Welsh.

**WHAT WILL I STUDY?**

**UNIT 1 (Narrative)** - in this unit you will study a Welsh contemporary novel and learn how to appreciate the contents, characters, themes and plot. You will also respond to the novel in a personal and creative way.

**UNIT 2 (Identity)** - in this unit you will study a visual text i.e. a film or television programme, and as a group you will undertake a discussion of the plot, characters and the themes. You will develop your listening and responding skills as well as the skill of communicating confidently in Welsh.

**UNIT 3 (Attitudes)** - in this unit you will study a collection of poetry to learn how to appreciate their content, style and messaging. You will also individually present information orally on the text of your choosing.

**UNIT 4b (Linguistic Connections)** - in this unit you will read a variety of written texts and you will learn how to combine and summarise information. You will also respond creatively to the texts in a variety of different forms.

**UNIT 5 (Respond and Create)** - in this unit you will respond and interact orally as a group to a contemporary text whilst also developing your skills in terms of expressing your opinions. You will also have the opportunity to write creatively as part of the coursework.

**UNIT 6 (Conveying Meaning)** - in this unit you will study a collection of short stories and you will learn how to compare and appreciate literary texts.

**HOW WILL I BE ASSESSED?**

**EXAM** - There will be three written examinations worth 60% of the Double Award qualification for units 1, 4b and 6. The exams for Units 1 and 6 will be 90 minutes long, and the Unit 4 exam will be 120 minutes long. The exams will consist of a variety of comprehension questions, extended answers and the opportunity to write creatively.

**NON-EXAMINATION ASSESSMENT** - There will be five non-examination assessments worth 40% of the Double Award qualification for units 2, 3 and 5. There will be two group oral assessments, one individual oral assessment and two written assessments (coursework).

**WHAT SKILLS WOULD I DEVELOP?**

GCSE Cymraeg Language and Literature is a core subject which will help you to develop the variety of skills listed below:

- the skills and strategy of learning a language
- reading, listening, speaking and writing skills
- skills related to interacting as part of a pair or group whilst listening to others, expressing an opinion and forming conclusions
- written creative skills by reading a wide range of forms
- literary appreciation skills
- public speaking skills
- foster enthusiasm for the Welsh language for further study, in the workplace and in the community.

**CAREERS IN THE 'CYMRAEG LANGUAGE AND LITERATURE' FIELD**

**GCSE Cymraeg Language and Literature** - the purpose of this qualification is to inspire you to be citizens that take pride in your nation's culture, history and language. Jobs advertised in Wales often require the ability to speak Welsh as essential or desirable. If you have a GCSE Cymraeg Language and Literature qualification you already have an advantage over others! The ability to speak Welsh is important and advantageous in all areas including education, health and care, the government, media and entertainment, sport, law, marketing and much more. The journey to a million Welsh speakers by 2050 is an exciting one and you are a part of it.

**For further information, contact: Mrs. Eirian M. Roberts**

# TGAU Cymraeg Craidd
## (Ail Iaith)

Ydych chi eisiau gallu deall a defnyddio'r Gymraeg, iaith Cymru, yn hyderus a digymell? Ydych chi eisiau datblygu sgll gwerthfawr ar gyfer defnyddio'r Gymraeg mewn astudiaethau pellach, yn y gweithle ac yn eich cymunedau? Ydych chi eisiau bod yn rhan o nod y llywodraeth a bod yn un o'r miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050? Dyma gymhwyster fydd yn gallu meithrin eich chwilfrydedd, datblygu eich sgiliau a strategaethau dysgu iaith ac agor drysau i astudiaethau pellach a swyddi yn y dyfodol.

**BETH FYDDAF YN EI ASTUDIO?**

Byddwch chi'n astudio tair thema eang sef cynefin, hunaniaeth a diwylliant ac o fewn y themau hyn byddwch yn dysgu:

- am werth y Gymraeg yn gymdeithasol ac yn y byd gwaith
- am ei defnydd yng Nghymru ac ar draws y byd
- sut i ddeall a defnyddio'r Gymraeg gydag eraill yn ddigymell a hyderus
- sut i ddatblygu sgiliau ar gyfer bywyd a gwaith
- sut i ymateb yn greadigol i lenyddiaeth.

**UNED 1 (Ymateb i Sbardun Gweledol) UNED 2 (Ymateb i Ffynonellau Amrywiol)**

Yn yr unedau siarad a gwrando yma byddwch yn dysgu sut i ddeall a defnyddio'r Gymraeg gydag eraill mewn ffordd ddigymell a hyderus drwy:

- wylio sbardunau gweledol (Uned 1)
- edrych ar ffynonellau amrywiol er enghraifft, graff / siart, ffeithiau a / neu ystadegau a delweddau (Uned 2)

**UNED 3 (Paratoi at y Dyfodol) UNED 4 (Llenyddiaeth a Chreadigol)**

Yn yr unedau yma byddwch yn datblygu'r ddwy sgll, darllen ac ysgrifennu, drwy ymateb i destunau darllen ac ysgrifennu di-eiriau, ymarfer ac ymateb i amrywiaeth o ffurfiau iaith, ynghyd a:

- dysgu sgiliau hanfodol ar gyfer y dyfodol fel trawsieithu a chyfieithu (Uned 3)
- astudio straeon byrion a cherddi gosod (Uned 4)

Bydd pob uned yn seiliedig ar y tair thema eang.

**SUT BYDDAF YN CAEL FY ASESU?**

**ARHOLIAD** - Bydd dau arholiad ysgrifenedig:
Uned 3 - 1 awr 30 munud; 100 marc; 25% o'r cymhwyster.
Uned 4 - 1 awr 30 munud; 100 marc; 25% o'r cymhwyster.
Bydd amrywiaeth o dasgau darllen gydag ymatebion di-eiriau ac ysgrifenedig yn y ddwy uned ynghyd a thasgau ysgrifennu disgrifadol, perswadiol, beiriniadol a mynegi barn (Uned 3) a thasgau ysgrifennu creadigol (Uned 4).

Yn Uned 3 bydd tasgau trawsieithu a chyfieithu yn cael eu hasesu ymhob cyfres. Yn Uned 4 bydd un testun gosod (o'r ddwy gerdd a'r ddwy stori fer) yn cael ei asesu ymhob cyfres. Byddwch chi'n cael gwybod cyn yr arholiad (Uned 4) pa destun gosod fydd yn cael ei ddefnyddio ymhob cyfres.

**ASESIAD DI-ARHOLIAD**

Bydd dau asesiad di-arholiad:
Uned 1 - un asesiad llafar par (6-8 munud) / grŵp o dri (8- 10 munud); 50 marc; 25% o'r cymhwyster.
Uned 2 - un asesiad llafar par (6-8 munud) / grŵp o dri (8- 10 munud); 50 marc; 25% o'r cymhwyster.

**PA SGILIAU FYDDAF YN EU DATBLYGU?**

- **Sgiliau Siarad a Gwrando**
  Byddwch yn datblygu eich sgiliau siarad a gwrando er mwyn gallu cyfathrebu, rhyngweithio, mynegi a chyfiawnhau barn a gofyn ac ymateb yn effeithiol i gwestiynau.

- **Sgiliau Darllen ac Ysgrifennu**
  Byddwch yn datblygu eich sgiliau darllen ac ysgrifennu er mwyn gallu deall ac ymateb i fathau gwahanol o iaith ysgrifenedig ar wahanol ffurfiau gan gynnwys iaith y byd gwaith ac ymateb i lenyddiaeth.

- **Sgiliau Dadansoddi**
  Byddwch yn datblygu eich sgiliau dadansoddi i ymateb yn feirniadol, gwerthuso pwyntiau perthnasol a datblygu syniadau mewn testunau a chyfathrebu llafar.

**GYRFAOEDD YM MAES CYMRAEG CRAIDD**
**TGAU CYMRAEG CRAIDD**

Mae swyddi sy'n cael eu hysbysebu yng Nghymru yn aml yn gofyn am y gallu i siarad Cymraeg fel rhywbeth hanfodol neu ddymunol. Os oes gennych chi gymhwyster TGAU Cymraeg Craidd a bod gan yr ymgeiswyr eraill sy'n ceisio am y swydd ddim y cymhwyster hwn, yna rydych chi ar y blaen i'r lleill cyn dechrau.
Mae'r gallu i siarad Cymraeg yn bwysig ac o fantais ymhob maes gan gynnwys addysg, iechyd a gofal, y llywodraeth, y cyfryngau ac adloniant, chwaraeon, y gyfraith, marchnata a llawer mwy. Gallwch hyd yn oed gael swydd ym Mhatagonia yn ne America os ydych chi'n gallu siarad Cymraeg!

**Am wybodaeth pellach cysylltwch â: Mrs. Eirian M. Roberts**

# GCSE Core Welsh (Second Language)

Do you want to be able to understand and use Welsh, the language of Wales, confidently and spontaneously? Do you want to develop a valuable skill and use Welsh in further study, in the workplace and in your communities? Do you want to be a part of the government's aim and be one of the million Welsh speakers by 2050? This is a qualification that can foster your curiosity, develop your language learning skills and strategies, and open doors to further study and future jobs.

## WHAT WILL I STUDY?

You will study three broad themes of 'cynefin', identity and culture and within these themes you will learn:

- about the value of the Welsh language socially and in the world of work.
- about its use in Wales and around the world
- how to understand and use Cymraeg with others in a spontaneous and confident way.
- how to develop skills for work and life.
- how to respond creatively to literature.

## UNIT 1 (Responding to a Visual Stimulus) & UNIT 2 (Responding to Various Sources)

In these speaking and listening units you will learn how to understand and use Welsh with others in a spontaneous and confident way by:

- watching visual stimuli (Unit 1)
- looking at various sources for example, graph/ chart, facts and/or statistics and images (Unit 2)

## UNIT 3 (Preparing for the Future) & UNIT 4 (Literature and Creative Writing)

In these units you will develop both skills, reading and writing, by responding to non-verbal reading and writing texts, practicing and responding to a variety of language forms, as well as:

- learn essential skills for the future such as translanguaging and translating (Unit 3)
- study short stories and set poems (Unit 4)

All units will be based on the three broad themes.

## HOW WILL I BE ASSESSED?

**EXAMINATION -** There will be two written examinations:
Unit 3 -1 hour 30 minutes; 100 marks; 25% of qualification.
Unit 4-1 hour 30 minutes; 100 marks; 25% of qualification.

There will be a variety of reading tasks with non-verbal and written responses in both units along with descriptive, persuasive, poetic writing and express opinions tasks (Unit 3) and creative writing tasks (Unit 4).

In Unit 3, translanguaging and translating tasks will be assessed in each series. In Unit 4, one set text (from the two poems and two short stories) will be assessed in each series. You will be told before the exam (Unit 4) which set text will be used in each series.

## NON-EXAMINATION ASSESSMENT

There will be two non-examination assessments:
Unit 1 - one oral assessment for pairs (6-8 minutes)/ group of three (8-10 minutes); 50 marks; 25% of qualification.
Unit 2 - one oral assessment for pairs (6-8 minutes)/ group of three (8-10 minutes); 50 marks; 25% of qualification.

## WHAT SKILLS WILL I DEVELOP?

- **Speaking and Listening Skills**
  You will develop your speaking and listening skills to be able to communicate, interact, express and justify opinions and ask and respond effectively to questions.

- **Reading and Writing skills**
  You will develop your reading and writing skills to be able to understand and respond to different types of written language in various forms including work-related language and responding to literature.

- **Analysing skills**
  You will develop your analytical skills to respond critically, evaluate relevant points and develop ideas in texts and spoken communication.

## CAREERS IN CORE CYMRAEG

## GCSE CORE CYMRAEG

Jobs advertised in Wales often require the ability to speak Welsh as essential or desirable. If you have a GCSE Core Cymraeg qualification and if the other candidates applying for the post do not have this qualification, you have a head start.

The ability to speak Welsh is important and advantageous in all areas including education, health and care, the government, media and entertainment, sport, law, marketing and much more. You can even get a job in Patagonia in South America if you can speak Welsh!

**For further information, contact: Mrs. Eirian M. Roberts**

# TGAU Saesneg – Iaith a Llenyddiaeth (Dwyradd)

**RHAGARWEINIAD**

Mae'r TGAU Saesneg Iaith a Llenyddiaeth Dwyradd yn eich galluogi i werthfawrogi sut mae iaith yn eich cysylltu â'r byd o'ch cwmpas, i ymgysylltu ag ystod gyfoethog o destunau o gyfnodau gwahanol a chan awduron amrywiol, ac i ddatblygu a chymhwyso eich defnydd eich hun o iaith, trwy gyfathrebu ysgrifenedig a llafar.

**BETH FYDDAF YN EI ASTUDIO?**

**Uned 1 CYD-DESTUN AC YSTYR** – yn Uned 1, byddwch yn astudio ystod o farddoniaeth o flodeugerdd CBAC, gan ymgysylltu â'r cysyniad o Gyd-destun ac Ystyr.
**Uned 2 PERTHYN** – yn Uned 2, byddwch yn astudio testun rhyddiaith, gan ymgysylltu â'r cysyniad o Berthyn a themâu cymuned, cynefin a dinasyddiaeth.
**Uned 3 DYLANWAD A PHŴER** – yn Uned 3, byddwch yn astudio ystod o destunau ffeithiol, gan ymgysylltu â Dylanwad a Phŵer awduron, a sut mae awduron a siaradwyr yn defnyddio pŵer ac yn ceisio dylanwadu ar eraill.
**Uned 4b CYMHELLION** – yn Uned 4b, bydd gennych ddewis i astudio drama neu destun rhyddiaith, gan ymgysylltu â'r cysyniad o Gymhellion awduron a chymeriadau, gan archwilio rhesymau dros agweddau, ymddygiadau a chredoau.
**Uned 5 PARHAD A NEWID** – yn Uned 5, byddwch yn astudio drama Shakespeare a barddoniaeth. Byddwch yn ystyried y cysyniad o Barhad a Newid, ac sut mae agweddau, syniadau ac iaith wedi newid dros amser.
**Uned 6 CYSYLLTIADAU** – yn Uned 6, byddwch yn astudio testunau ffeithiol, gan ganolbwyntio ar y cysyniad o Gysylltiadau. Byddwch yn archwilio cysylltiadau rhwng testunau gwahanol, gan gysylltu testunau ag amser, lle, iaith, a pherthnasoedd.

**SUT BYDDAF YN CAEL FY ASESU?**

Mae Unedau 1, 4b a 6 yn unedau arholi, gyda'i gilydd yn werth 60% o'ch cymhwyster. Mae pob arholiad yn para 90 munud a bydd yn cynnwys cwestiynau sy'n seiliedig ar ddyfyniadau â thariff isel, ymateb traethawd estynedig a darn o ffuglen greadigol neu ysgrifennu ffeithiol.
Mae Unedau 2, 3 a 5 yn asesiadau di-arholiad, gyda'i gilydd yn werth 40% o'ch cymhwyster. Bydd pob uned yn cynnwys dwy dasg, un a fydd yn asesu eich ymateb ysgrifenedig i'r testun(au) perthnasol ac un a fydd yn asesu eich sgiliau llafaredd.

**PA SGILIAU FYDDAF YN EU DATBLYGU?**

Mae TGAU Saesneg Iaith a Llenyddiaeth yn bwnc craidd ac fel y cyfryw yn helpu i ddatblygu ystod eang o sgiliau ar gyfer eich dyfodol:

- Sgiliau Cyfathrebu – mynegi eich hun trwy ddefnydd clir a chreadigol o iaith
- Sgiliau Darllen – darllen, gwrando ar ac ymchwilio i amrywiaeth o destunau, dadansoddi ystyr a chraffu ar ddibynadwyedd
- Sgiliau Dadansoddi Cyd-destunol – ymgysylltu ag arwyddocâd pwrpas, cynulleidfa, a chyd-destunau siarad, darllen ac ysgrifennu
- Sgiliau Llythrennedd – datblygu a chymhwyso dealltwriaeth o ramadeg a'r defnydd o eirfa.

**GYRFAOEDD SY'N DEFNYDDIO 'IAITH A LLENYDDIAETH SAESNEG'**

**Mae TGAU Saesneg Iaith a Llenyddiaeth** wedi'i gynllunio i'ch arfogi ag amrywiaeth gyfoethog o sgiliau ar gyfer eich dyfodol mewn addysg a'r gweithle. Mae'n gymhwyster sy'n cael ei werthfawrogi'n eang ac sy'n darparu sylfaen gref ar gyfer astudiaeth bellach o lenyddiaeth, iaith, ac ystod eang o bynciau academaidd eraill ar lefel Safon Uwch a thu hwnt. Gall agor y drws i amrywiaeth o lwybrau gyrfa fel y gyfraith, newyddiaduraeth, cynhyrchu cyfryngau, hysbysebu, marchnata, addysgu, gwleidyddiaeth, cysylltiadau cyhoeddus a chyhoeddi.

**Am wybodaeth pellach cysylltwch â:**
**Mrs. Mary Gwyn**

# GCSE English – Language and Literature (Double Award)

## INTRODUCTION

The GCSE English Language and Literature Double Award enables you to appreciate how language connects you to the world around you, to engage with a rich range of texts from different periods and by diverse writers, and to develop and apply your own use of language, through written and verbal communication.

## WHAT WILL I STUDY?

**Unit 1 CONTEXT AND MEANING** – in Unit 1, you will study a range of poetry from the WJEC anthology, engaging with the concept of Context and Meaning.

**Unit 2 BELONGING** – in Unit 2, you will study a prose text, engaging with the concept of Belonging and themes of community, *cynefin* and citizenship.

**Unit 3 INFLUENCE AND POWER** – in Unit 3, you will study a range of non-fiction texts, engaging with the Influence and Power of writers, and how writers and speakers exert power and attempt to influence others.

**Unit 4b MOTIVATIONS** – in Unit 4b, you will have a choice to study a play or a prose text, engaging with the concept of Motivations of writers and characters, exploring reasons for attitudes, behaviours and beliefs.

**Unit 5 CONTINUITY AND CHANGE** – in Unit 5, you will study a Shakespeare play and poetry. You will consider the concept of Continuity and Change, and how attitudes, ideas and language have changed over time.

**Unit 6 CONNECTIONS** – in Unit 6, you will study non-fiction texts, focusing on the concept of Connections. You will explore links between different texts, relating texts to time, place, language, and relationships.

## HOW WILL I BE ASSESSED?

Units 1, 4b and 6 are examined units, together worth 60% of your qualification. Each exam lasts 90 minutes and will consist of low-tariff extract-based questions, an extended essay response and a piece of creative fiction or non-fiction writing.

Units 2, 3 and 5 are non-examined assessments, together worth 40% of your qualification. Each unit will consist of two tasks, one that will assess your written response to the relevant text(s) and one that will assess your oracy skills.

## WHAT SKILLS WILL I DEVELOP?

GCSE English Language and Literature is a core subject and as such helps to develop a wide range of skills for your future:

- Communication Skills – expressing yourself through clear and creative use of language
- Reading Skills – reading, listening to and researching a range of texts, analysing meaning and scrutinising reliability
- Contextual Analysis Skills – engaging with the significance of purpose, audience, and contexts of speaking, reading and writing
- Literacy Skills – developing and applying an understanding of grammar and uses of vocabulary.

## CAREERS USING 'ENGLISH LANGUAGE AND LITERATURE'

**GCSE English Language and Literature** is designed to equip you with a rich variety of skills for your future in education and the workplace. It is a widely valued qualification that provides a strong foundation for further study of literature, language, and a wide range of other academic subjects at A level and beyond. It can open the door to an array of career paths such as law, journalism, media production, advertising, marketing, teaching, politics, public relations and publishing.

**For further information, contact:**
**Mrs. Mary Gwyn**

# TGAU – Mathemateg a Rhifedd (Dwyradd)

Yn **TGAU Mathemateg a Rhifedd**, byddwch yn adeiladu ar y wybodaeth a'r ddealltwriaeth sydd gennych o destunau o fewn rhif, algebra, geometreg a data. Byddwch yn dysgu agweddau ariannol allweddol bywyd bob dydd oedolyn, fel ymdrin a slipiau cyflog, biliau a chynilion. Mae dealltwriaeth dda o gynnwys y cymhwyster hwn yn llwyfan perffaith i'r rhai sy'n gobeithio dilyn gyrfa STEM.

## BETH FYDDAF YN EI ASTUDIO?

Mae 3 uned i'r cwrs:

### UNED 1: Mathemateg Ariannol a Chymwysiadau Eraill o Rifedd

Yn yr uned hon byddwch yn dysgu gwersi bywyd a fydd yn eich helpu i ddod yn oedolyn hyddysg iawn yn ariannol. Meddyliwch am dermau neu acronymau y gallech fod wedi clywed amdanynt fel 'Yswiriant Gwladol', 'TAW' neu 'AER' - bydd y rhain yn dod yn gyfarwydd i chi. Bydd cyfleoedd a pheryglon ariannol yn cael sylw, a byddwch yn dysgu sut i ddarllen dogfennau pwysig fel slipiau cyflog, biliau a chyfriflenni banc.

Bydd pob math o gyd-destunau'r byd go iawn hefyd yn cael eu haddysgu a'u hasesu, gan wneud yr uned hon yn berthnasol ac yn ddiddorol.

### UNED 2: Digyfrifiannell

Byddwch yn archwilio cysyniadau lle na fydd angen eich cyfrifiannell arnoch yn yr uned hon. Byddwch yn dyfnhau eich dealltwriaeth o debygolrwydd ac yn archwilio syniadau newydd o fewn algebra a geometreg, fel graffiau cwadratig a theoremau cylch.

### UNED 3: Caniateir Cyfrifiannell

Mae gan yr uned hon y pwysoliad mwyaf o'r tair uned, a gallwch gael eich cyfrifiannell wrth eich ochr. Mae llawer o drin data ac ystadegau yn yr uned hon yn ogystal a chysyniadau geometreg newydd tel Theorem Pythagoras a Thrigonometreg.

## SUT BYDDAF YN CAEL FY ASESU?

| UNED 1: Mathemateg Ariannol a Chymwysiadau Eraill o Rifedd | |
|---|---|
| Haen Uwch | Haen Sylfaenol |
| 1 awr 45 munud<br>80 marc | 1 awr 30 munud<br>65 marc |
| Pwysoliad: 30% o'r cymhwyster | |

| UNED 2: Digyfrifiannell | |
|---|---|
| Haen Uwch | Haen Sylfaenol |
| 1 awr 45 munud<br>80 marc | 1 awr 30 munud<br>65 marc |
| Pwysoliad: 30% o'r cymhwyster | |

| UNED 3: Caniateir Cyfrifiannell | |
|---|---|
| Haen Uwch | Haen Sylfaenol |
| 2 awr<br>90 marc | 1 awr 45 munud<br>75 marc |
| Pwysoliad: 40% o'r cymhwyster | |

## PA SGILIAU FYDDAF YN EU DATBLYGU?

- Byddwch yn datblygu dealltwriaeth o wahanol feysydd mathemateg a sut mae'r meysydd hyn yn cysylltu a'i gilydd.
- Byddwch chi'n ehangu ar eich amrediad sgiliau a thechnegau mathemategol ac yn gallu eu defnyddio a'u cymhwyso at amrywiaeth o gyd-destunau bywyd go iawn.
- Byddwch yn meithrin sylfaen gref mewn mathemateg ariannol i'ch paratoi ar gyfer bywyd a gwaith.

## GYRFAOEDD MEWN MATHEMATEG

Gall TGAU mewn Mathemateg a Rhifedd arwain at amrywiaeth o lwybrau gyrfa. Mae'r rhain yn cynnwys swyddi fel: dadansoddwr ariannol, rhaglennydd cyfrifiaduron, gwyddonydd meddygol, actiwari, datblygwr meddalwedd, economegydd, dadansoddwr data neu ymchwil, cyfrifydd, athro.

**Am wybodaeth pellach cysylltwch â: Miss Nia Evans**

# GCSE – Mathematics and Numeracy (Double Award)

In **GCSE Mathematics & Numeracy**, you will build on the knowledge and understanding you have of topics within number, algebra, geometry, and data. You will be taught the key financial aspects of everyday adult life, such as dealing with payslips, bills, and savings. A good understanding of the content of this qualification is the perfect platform to those hoping to follow a STEM career.

## WHAT WILL I STUDY?

The course has 3 units:

### UNIT 1: Financial Mathematics and Other Applications of Numeracy

In this unit you will learn life lessons that will help you become a financially well-informed adult. Think about terms or acronyms you may have heard about like 'National Insurance', 'VAT' or 'AER' – these will become familiar to you. Financial opportunities and pitfalls will be addressed, and you will learn how to read important documents like payslips, bills and bank statements.

All sorts of other real-world contexts will also be taught and assessed, making this unit relevant and interesting.

### UNIT 2: Non-calculator

You will explore concepts where you won't need your calculator in this unit. You will deepen your understanding of probability and explore new ideas within algebra and geometry, like quadratic graphs and circle theorems.

### UNIT 3: Calculator-allowed

This unit has the biggest weighting of all three units, and you can have your calculator by your side. There is lots of data handling and statistics in this unit as well as new geometry concepts such as Pythagoras' Theorem and Trigonometry.

## HOW WILL I BE ASSESSED?

| UNIT 1: Financial Mathematics and Other Applications of Numeracy | |
|---|---|
| **Higher Tier** | **Foundation Tier** |
| **1 hour 45 minutes**<br>**80 mark** | **1 hour 30 minutes**<br>**65 mark** |
| **Weighting: 30% of the qualification** | |

| UNIT 2: Non-Calculator | |
|---|---|
| **Higher Tier** | **Foundation Tier** |
| **1 hour 45 minutes**<br>**80 mark** | **1 hour 30 minutes**<br>**65 mark** |
| **Weighting: 30% of the qualification** | |

| UNIT 3: Calculator allowed | |
|---|---|
| **Higher Tier** | **Foundation Tier** |
| **2 hour**<br>**90 mark** | **1 hour 45 minutes**<br>**75 mark** |
| **Weighting: 40% of the qualification** | |

## WHAT SKILLS WILL I DEVELOP?

- You will develop an understanding of the different areas of mathematics and how they relate to each other.
- You will extend your range of mathematical skills and techniques and be able to use and apply them to a range of real-life contexts.
- You will gain a strong foundation in financial mathematics to prepare you for life and work.

## CAREERS IN MATHEMATICS

A GCSE in Mathematics and Numeracy can lead to a variety of career paths. These include jobs such as: financial analyst, computer programmer, medical scientist, actuary, software developer, economist, data or research analyst, accountant, teacher.

**For further information, contact: Miss Nia Evans**

# TGAU GWYDDONIAETH
# Y GWYDDORAU (Dwyradd)

Mae'r llwybrau canlynol ar gael yn y gyfres:

**TGAU Bioleg / Cemeg / Ffiseg**
Bydd dysgwyr yn astudio ar gyfer 3 TGAY ym mhob un o'r gwyddorau ac yn derbyn gradd ar wahân ym mhob un ohonynt.

**TGAU Y Gwyddorau (Dwyradd)**
Bydd dysgwyr yn astudio'r tair gwyddor ac yn derbyn dwy radd TGAU.

**TGAU Gwyddoniaeth Integredig (Gradd Unigol)**
Bydd dysgwyr yn astudio'r tair gwyddoniaeth mewn dull cyd-destunol ac yn derbyn un radd TGAU.

Mae **TGAU Y Gwyddorau (Dwyradd)** yn gymhwyster newydd sy'n cefnogi eich dysgu a'ch dilyniant drwy'r Cwricwlwm i Gymru. Mae'n eich galluogi i ddatblygu sylfaen gref o wybodaeth, sgiliau a dealltwriaeth mewn Bioleg, Cemeg a Ffiseg. Mae'r cymhwyster yn cyfrif fel dau TGAU ac yn caniatáu dilyniant i astudio ôl-16, gan gynnwys cyrsiau UG a Safon Uwch Gwyddoniaeth.

## BETH FYDDAF YN EI ASTUDIO?

Mae 7 uned i'r cwrs:

- **Uned 1: Bioleg**
  - Sail Bywyd
- **Uned 2: Cemeg**
  - Sylweddau Cemegol a Sut Maen Nhw'n Ymddwyn
- **Uned 3: Ffiseg**
  - Grymoedd, Mudiant a'r Bydysawd
- **Uned 4: Bioleg**
  - Parhad Bywyd
- **Uned 5: Cemeg**
  - Bondio Cemegol, Adweithiau ac Adnoddau
- **Uned 6: Ffiseg**
  - Tonnau, Trydan ac Egni
- **Uned 7: Ymholiad Gwyddonol**

## BETH FYDDAF YN EI ASTUDIO?

Mae 7 uned i'r cwrs:

- Deall ac esbonio cysyniadau mewn bioleg, cemeg a ffiseg, a'u cymhwyso i gyd-destunau yn y byd go iawn.
- Cwestiynu syniadau gwyddonol, gwerthuso tystiolaeth, a defnyddio sgiliau meddwl yn greadigol i ddatrys problemau.
- Dylunio, cynnal a mireinio ymchwiliadau gan ddefnyddio amrywiaeth o sgiliau ymholi.
- Dadansoddi a dehongli data i ddod i gasgliadau dilys.
- Defnyddio sgiliau mathemategol, digidol a chyfathrebu i gyflwyno ac esbonio syniadau gwyddonol yn effeithiol.
- Ystyried materion moesol, moesegol a chynaliadwyedd mewn gwyddonieth a deall eu heffaith yn lleol ac yn fyd-eang.

## SUT BYDAF YN CAEL FY ASESU?

Mae'r cymhwyster wedi'i ranu'n 7 uned, ac mae pob un yn cael ei marcio gan CBAC.

| | | |
|---|---|---|
| **Uned 1** | **Asesu drwy arholiad** Haen sylfaenol ac uwch ar gael | 14% o gyfanswm y marciau |
| **Uned 2** | **Asesu drwy arholiad** Haen sylfaenol ac uwch ar gael | 14% o gyfanswm y marciau |
| **Uned 3** | **Asesu drwy arholiad** Haen sylfaenol ac uwch ar gael | 14% o gyfanswm y marciau |
| **Uned 4** | **Asesu drwy arholiad** Haen sylfaenol ac uwch ar gael | 16% o gyfanswm y marciau |
| **Uned 5** | **Asesu drwy arholiad** Haen sylfaenol ac uwch ar gael | 16% o gyfanswm y marciau |
| **Uned 6** | **Asesu drwy arholiad** Haen sylfaenol ac uwch ar gael | 16% o gyfanswm y marciau |
| **Uned 7** | **Asesu drwy arholiad** Mae gofyn i ddysgwyr gwblhau dau ymholiad o ddewis o dri. Nid oes haenau i'r uned hon. | 10% o gyfanswm y marciau |

## GYRFAOEDD YM MAES GWYDDONIAETH

Gall TGAU Gwyddoniaeth agor cyfoeth o lwybrau gyrfa. Mae'r rhain yn cynnwys swyddi yn y meysydd canlynol: Awyrofod ac amddiffyn. Amaethyddiaeth, Diwydiannau cemegol a fferyllol, Cosmetigau a gofal personol, Addysg Egni ac egni adnewyddadwy, peirianneg, Gwyddor yr amgylchedd, Cynhyrchu bwyd a diodydd, Gwyddoniaeth fforensig, Meddygaeth a gofal iechyd, Meteoroleg a newid hinsawdd, Gwyddoniaeth ac ymchwil, Chwaraeon a ffitrwydd, a Thelathrebu.

Mae gan y rhan fwyaf o swyddi elfen o wyddoniaeth ynddynt. Mae cyflogwyr yn edrych yn benodol am y sgiliau trosglwyddadwy a ddatblygir drwy astudio gwyddoniaeth.

**Am wybodaeth pellach cysylltwch â:**

**Mr. Gareth Jones**

# GCSE in SCIENCE
# THE SCIENCES (DOUBLE AWARD)

The following pathways are available in the suite:

**GCSE Biology / Chemistry / Physics**
Learners study for 3 GCSE's in each of the sciences and receive a separate grade in each one.

**GCSE The Sciences (Double Award)**
Learners study all three sciences and receive two GCSE grades.

**GCSE Integrated Science (Single Award)**
Learners study all three sciences in a context-led approach and receive one GCSE grade.

**GCSE The Sciences (Double Award)** is a new qualification that supports your learning and progression through the Curriculum for Wales. It allows you to develop a strong foundation of knowledge, skills and understanding in Biology, Chemistry and Physics. The qualification counts as two GCSEs and allows for progression to post -16 study, including AS and A Level Sciences.

## WHAT WILL I STUDY?

The course has 7 units:

- **Unit 1: Biology**
  - Basis of Life
- **Unit 2: Chemistry**
  - Chemical Substances and How they Behave
- **Unit 3: Physics**
  - Forces, Motion and the Universe
- **Unit 4: Biology**
  - Continuity of Life
- **Unit 5: Chemistry**
  - Chemical Bonding, Reactions and Resources
- **Unit 6: Physics**
  - Waves, Electricity and Energy
- **Unit 7: Scientific Enquiry**

## WHAT WILL i DEVELOP?

There are 7 units to the course:

- Understand and explain concepts in biology, chemistry and physics, and apply them to real-world contexts.
- Question scientific, evaluate evidence, and use creative thinking to solve problems.
- Design, conduct and refine investigations using a range of enquiry skills.
- Analyse and interpret data to draw valid conclusions.
- Use mathematical, digital and communication skills to present and explain scientific ideas effectively.
- Consider moral, ethical and sustainability issues in science and understand its impact locally and globally.

## HOW WILL I BE ASSESSED?

The qualification is split into 7 units, which are all marked by WJEC.

| | | |
|---|---|---|
| **Unit 1** | **Assessed by exam** Foundation and higher tier available | 14% of the total marks |
| **Unit 2** | **Assessed by exam** Foundation and higher tier available | 14% of the total marks |
| **Unit 3** | **Assessed by exam** Foundation and higher tier available | 14% of the total marks |
| **Unit 4** | **Assessed by exam** Foundation and higher tier available | 16% of the total marks |
| **Unit 5** | **Assessed by exam** Foundation and higher tier available | 16% of the total marks |
| **Unit 6** | **Assessed by exam** Foundation and higher tier available | 16% of the total marks |
| **Unit 7** | **Assessed by exam** Learners are required to complete two enquiries from a choice of three. This unit is not tiered. | 10% of the total marks |

## CAREERS IN SCIENCE

GCSE Science can open up a wealth of career paths. These include jobs within the following fields:
Aerospace and defence, Agriculture, Chemical and pharmaceutical industries, Cosmetics and personal care, Education, Energy and renewable energy, Engineering, Environmental science, Food and drink production, Forensic science, Medicine and healthcare, Meteorology and climate change, Science and research, Sport and fitness, and Telecommunications.

Most jobs have an element of science in them. The transferable skills developed by studying science are actively sought out by employers.

**For further information, contact:**

**Mr. Gareth Jones**

# TGAU - GWYDDONIAETH INTEGREDIG (GRADD UNIGOL)

Mae'r llwybrau canlynol ar gael yn y gyfres:

**TGAU Bioleg / Cemeg / Ffiseg**
Bydd dysgwyr yn astudio ar gyfer 3 TGAU ym mhob un o'r gwyddorau ac yn derbyn gradd ar wahân ymhob un ohonynt.

**TGAU Y Gwyddorau (Dwyradd)**
Bydd dysgwyr yn astudio'r tair gwyddor ac yn derbyn dwy radd TGAU.

**TGAU Gwyddoniaeth Integredig (Gradd Unigol)**
Bydd dysgwyr yn astudio'r tair gwyddoniaeth mewn dull cyd-destunol ac yn derbyn un radd TGAU.

Mae **TGAU Gwyddoniaaeth Integredig (Gradd Unigol)** yn gymhwyster newydd sy'n cefnogi eich dysgu a'ch dilyniant drwy'r Cwricwlwm i Gymru.

Mae'n defnyddio dull thematig o ddysgu ac asesu gwyddoniaeth. Mae'r cymhwyster yn cyfuno pob un o dair elfen Gwyddoniaeth (Bioleg, Cemeg a Ffiseg) a'u cymhwyso i'r byd modern.

Mae'n cyfrif fel un TGAU a gall arwain at astudiaethau pellach ôl-16, er nad yw wedi'i gynllunio ar gyfer dilyniant uniongyrchol i gyrsiau Safon Uwch Gwyddoniaeth.

## BETH FYDDAF YN EI ASTUDIO?

Mae 3 uned i'r cwrs:

**Uned 1: Byw ar y Ddaear**

- Cynnal corff iach
- Defnyddio adnoddau'r Ddaear
- Trafnidiaeth

**Uned 2: Gwyddoniaeth mewn Byd sy'n newid**

- Dylanwad Dyn ar y Ddaear
- Bodau Dynol yn y Gofod
- Chwilio am gliwiau

**Uned 3: Ymholiad Gwyddonol**

## SUT BYDDAF YN CAEL FY ASESU?

Mae'r cymhwyster wedi'i rannu'n 3 uned, ac mae pob un yn cael ei marcio gan CBAC.

| | | |
|---|---|---|
| **Uned 1** | **Asesu drwy arholiad** Haen sylfaenol ac uwch ar gael | 45% o gyfanswm y marciau |
| **Uned 2** | **Asesu drwy arholiad** Haen sylfaenol ac uwch ar gael | 45% o gyfanswm y marciau |
| **Uned 3** | **Asesu drwy arholiad** Mae'n ofynnol i ddysgwyr gwblhau un ymholiad o ddewis o ddau. Nid oes haenau i'r uned hon. | 10% o gyfanswm y marciau |

## PA SGILIAU FYDDAF YN EU DATBLYGU?

- Deall ac esbonio cysyniadau mewn gwyddoniaeth a'u cymhwyso i gyd-destunau yn y byd go iawn.
- Cwestiynu syniadau gwyddonol, gwerthuso tystiolaeth, a defnyddio sgiliau meddwl yn greadigol i ddatrys problemau.
- Dylunio, cynnal a mireinio ymchwiliadau gan ddefnyddio amrywiaeth o sgiliau ymholi.
- Dadansoddi sgiliau mathemategol, digidol a chyfathrebu i gyflwyno ac esbonio syniadau gwyddonol yn effeithiol.
- Ystyried materion moesol, moesegol a chynaliadwyedd mewn gwyddoniaeth a deall eu heffaith yn lleol ac yn fyd-eang.

## GYRFAOEDD YM MAES GWYDDONIAETH

Mae elfen o wyddoniaeth yn y rhan fwyaf o swyddi, boed yn gweithio ar gyfer y gwasanaeth iechyd, gweithio i gynnal ein hamgylchedd, gweithio ym maes gweithgynhyrchu, neu yn y sector adeiladu. Mae cyflogwyr yn edrych yn benodol am y sgiliau trosglwyddadwy a ddatblygir drwy astudio gwyddoniaeth.

**Am wybodaeth pellach cysylltwch â:**

**Mr. Gareth Jones**

# GCSE INTEGRATED SCIENCE (SINGLE AWARD)

The following pathways are available in the suite:

**GCSE Biology / Chemistry / Physics**
Learners study for 3 GCSEs in each of the sciences and receive a separate grade in each one.

**GCSE The Sciences (Double Award)**
Learners study all three sciences and receive two GCSE grades.

**GCSE Integrated Science (Single Award)**
Learners study all three sciences in a context-led approach and receive one GCSE grade.

**GCSE Integrated Science (Single Award)** is a new qualification that supports your learning and progression through the Curriculum for Wales.

It uses a thematic approach to science learning and assessment. The qualification combines all three elements of Science (Biology, Chemistry and Physics) and applies them to the modern world.

It counts as one GCSE and can lead to further study post-16, though it's not desiged for direct progression into A-level Science courses.

## WHAT WILL I STUDY?

The course has 3 units:

**Unit 1: Living on Earth**

- Maintaining a healthy body
- Using the Earth's resources
- Transport

**Unit 2: Science in a Changing World**

- Human influence on the Earth
- Humans in Space
- Looking for clues

**Unit 3: Scientific Enquiry**

## HOW WILL I BE ASSESSED?

The qualification is split into 3 units, which are all marked by WJEC.

| | | |
|---|---|---|
| **Unit 1** | **Assessed by exam**<br>Foundation and higher tier available | 45% of total marks |
| **Unit 2** | **Assessed by exam**<br>Foundation and higher tier available | 45% of total marks |
| **Unit 3** | **Assessed by exam**<br>Learners are required to complete one enquiry from a choice of two.<br>This unit is not tiered. | 10% of total marks |

## WHAT SKILLS WILL I DEVELOP?

- Understand and explain concepts in science and apply them to real-world contexts.
- Question scientific ideas, evaluate evidence, and use creative thinking to solve problems.
- Design, conduct, and refine investigations using a range of enquiry skills.
- Analyse and interpret, digital, and communication skills to present and explain scientific ideas effectively.
- Consider moral, ethical, and sustainability issues in science and understand its impact locally and globally.

## CAREERS IN SCIENCE

Most jobs have an element of science in them, whether it be working for the health service, working to maintain our environment, working in manufacturing, or in the building sector. The transferrable skills developed by studying science are actively sought out by employers.

**For further information, contact:**

**Mr. Gareth Jones**

# TGAU – Bwyd a Maeth

Mae TGAU Bwyd a Maeth CBAC yn rhoi'r wybodaeth, y ddealltwriaeth a'r sgiliau sydd eu hangen arnoch chi i goginio a chymhwyso egwyddorion gwyddor bwyd, maeth a bwyta'n iach. Bydd yn eich annog i goginio amrywiaeth o seigiau a bydd yn rhoi'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth ofynnol i chi er mwyn eich caniatau i wneud penderfyniadau gwybodus am fwyd a maeth. Gyda'r wybodaeth rydych chi'n ei hennill byddwch yn gallu bwydo eich hun ac eraill yn fforddiadwy ac yn faethlon, nawr ac yn ddiweddarach mewn bywyd.

## BETH FYDDAF YN EI ASTUDIO?

Bydd y fanyleb bwyd a maeth yn eich galluogi i wneud cysylltiadau rhwng theori a gwaith ymarferol fel eich bod yn gallu cymhwyso eich dealltwriaeth o wyddor bwyd a maeth at goginio ymarferol. Mae'r cynnwys yn berthnasol i astudio bwyd a diodydd.

## SUT BYDDAF YN CAEL FY ASESU?

### Uned 1 - Egwyddorion Bwyd a Maeth

Arholiad ysgrifenedig ar sgrin - 1 awr 30 munud
40% o'r cymhwyster - 80 marc
Dwy adran yn cynnwys cwestiynau gorfodol.
Adran A: cwestiynau'n seiliedig ar ddeunydd ysgogi.
Adran B: amrywiaeth o wahanol fathau o gwestiynau er mwyn asesu'r holl gynnwys sy'n gysylltiedig a bwyd a maeth.

### ADA UNED 2 - Archwiliad Bwyd

Asesir Bwyd a Maeth ar waith drwy asesiad di-arholiad: wedi'i marcio gan eich athro, a'i gymedroli'n allanol gan CBAC. Mae hyn werth 20% o'r cymhwyster cyfan.
Tasg 10 awr - 20% o gyfanswm y marciau sydd ar gael. Bydd yn cynnwys gwaith arbrofol ymarferol a gwaith ysgrifenedig yn seiliedig ar nwyddau bwyd penodol e.e. bara, crwst

### ADA UNED 3 - Bwyd a Maeth ar waith

Asesir Bwyd a Maeth ar waith drwy asesiad di-arholiad: wedi'i marcio gan eich athro, a'i gymedroli'n allanol gan CBAC. Mae hyn werth 20% o'r cymhwyster cyfan.

Tasg 15 awr - 40% o gyfanswm y marciau sydd ar gael. Bydd yn cynnwys gwaith ymchwil i ymateb i friff penodol ynghyd a chynllunio, paratoi, coginio (1 x sesiwn 3 awr) a chyflwyno tair saig yn ogystal a chyfwydydd (lle'n briodol) i greu bwydlen.

## PA SGILIAU FYDDAF YN EU DATBLYGU?

Drwy astudio bwyd a maeth, byddwch yn gallu:

- dangos sgiliau coginio effeithiol a diogel drwy gynllunio, paratoi a choginio amrywiaeth o nwyddau bwyd tra'n defnyddio technegau ac offer coginio gwahanol.
- Datblygu gwybodaeth a dealltwriaeth o nodweddion gweithredol a phriodweddau cemegol bwyd yn ogystal a gwybodaeth gadarn am gynnwys maethol bwyd a diodydd.
- Deall y berthynas rhwng deiet, maeth ac iechyd, yn cynnwys effeithiau corfforol a seicolegol deiet ac iechyd gwael.
- Deall effeithiau economaidd, amgylcheddol, moesegol a chymdeithasol-ddiwylliannol argaeledd bwyd, prosesau cynhyrchu, deiet a dewisiadau iechyd.
- Dangos gwybodaeth a dealltwriaeth o nodweddion gweithredol a maethol, rhinweddau synhwyraidd ac ystyriaethau diogelwch bwyd microbiolegol wrth baratoi, prosesu, storio, coginio a gweini bwyd.
- Deall ac archwilio amrywiaeth o gynhwysion a phrosesau o wahanol draddodiadau coginio (y traddodiadol Gymreig, Prydeinig a'r rhyngwladol) er mwyn ysbrydoli syniadau newydd neu addasu ryseitiau sy'n bodoli.

## GYRFAOEDD YM MAES BWYD A MAETH.

Mae'r fanyleb hon yn adeiladu ar gynnwys pwnc a fydd wedi'i addysgu i chi yn barod trwy'r camau cynnydd a bydd yn sylfaen addas ar gyfer astudio Bwyd a Maeth ar Lefel 3, y Dystysgrif CBAC Lefel 3 mewn Gwyddor Bwyd a Maeth, er enghraifft. Bydd y cymhwyster hwn hefyd yn darparu cwrs astudio cydlynol, boddhaus a gwerthfawr i chi os nad ydych yn mynd ymlaen i astudio'r pwnc hwn ymhellach. Yn ogystal, bydd y cymhwyster yn eich cyflwyno i ffordd newydd o feddwl am fwyd a allai eich helpu i wneud penderfyniadau gwybodus am amrywiaeth eang o lwybrau gyrfaol.

**Am wybodaeth pellach cysylltwch â:**
**Miss Alaw Roberts**

# GCSE – Food and Nutrition

The WJEC GCSE in Food and Nutrition will equip you with the knowledge, understanding and skills required to cook and apply the principles of food science, nutrition and healthy eating. It will encourage you to cook a range of dishes and will give you the required knowledge and understanding to enable you to make informed decisions about food and nutrition. With the knowledge you gain, you will be able to feed yourselves and others affordably and nutritiously, now and later in life.

**WHAT WILL I STUDY?**

The specification in food and nutrition will enable you to make connections between theory and practice so that you are able to apply your understanding of food science and nutrition to practical cooking. The content relates to the study of both food and drinks.

**HOW WILL I BE ASSESSED?**

UNIT 1: Principles of Food and Nutrition

This will be assessed through an on-screen written examination - 1 hour 30 minutes
40% of qualification - 80 marks
Two sections both containing compulsory questions.
Section A: questions based on stimulus materials.
Section B: a range of question types to assess all content related to food and nutrition.

UNIT 2 Food investigation

This will be assessed through a non-examination assessment: marked by your teacher, externally moderated by WJEC. This is worth 20% of the total qualification.
10-hour task - 20% of the total marks available
Will involve practical experimental work and written work based on a specific food commodity e.g. bread, pastry.

UNIT 3 - Food & Nutrition in action

This will be assessed through a non-examination assessment: marked by your teacher, externally moderated by WJEC. This is worth 20% of the total qualification.

15-hour task - 40% of the total marks available.
Will involve research to respond to a given brief plus planning, preparation, cooking (1 x 3-hour session) and presentation of three dishes plus accompaniments (where appropriate) to form a menu.

**WHAT SKILLS WILL I DEVELOP?**

By studying food and nutrition you will be able to:

- demonstrate effective and safe cooking skills by planning, preparing and cooking a variety of food commodities whilst using different cooking techniques and equipment.
- Develop knowledge and understanding of the functional properties and chemical characteristics of food as well as a sound knowledge of the nutritional content of food and drinks.
- Understand the relationship between diet, nutrition and health, including the physiological and psychological effects of poor diet and health.
- Understand the economic, environmental, ethical and socio-cultural influences on food availability, production processes, diet and health choices
- Demonstrate knowledge and understanding of functional and nutritional properties, sensory qualities and microbiological food safety considerations when preparing, processing, storing, cooking and serving food.
- Understand and explore a range of ingredients and processes from different culinary traditions (traditional Welsh, British and international) to inspire new ideas or modify existing recipes.

**CAREERS IN FOOD & NUTRITION**

This qualification will build on subject content that you will have been taught through the progression steps and will provide a suitable foundation for the study of Food and Nutrition at Level 3 for example the WJEC Level 3 Certificate in Food Science and Nutrition. This qualification will also provide a coherent, satisfying and worthwhile course of study for you if you do not progress to study further in this subject. In addition, the qualification will introduce you to a new way of thinking about food which could help you make informed decisions about a wide range of career pathways.

**For further information, contact:**
**Miss Alaw Roberts**

# TGAU
# Ffasiwn a Thecstiliau

Drwy astudio TGAU Dylunio a Thechnoleg: Ffasiwn a Thecstiliau byddwch yn barod i gymryd rhan yn hyderus a llwyddiannus mewn byd sy'n fwyfwy technolegol; a byddwch yn ymwybodol o'r hyn sy'n dylanwadu'n ehangach ar ddylunio a thechnoleg, ac yn dysgu gan y dylanwadau hynny. Mae'r rhain yn cynnwys ffactorau hanesyddol, cymdeithasol / diwylliannol, amgylcheddol ac economaidd.

Bydd y cwrs yn cynnig cyfle i chi ddatrys problemau go iawn drwy ddylunio a gwneud cynhyrchion neu systemau.

### SUT BYDDAF YN CAEL FY ASESU?

**Uned 1** - Arholiad ar-sgrin
Math o Asesiad: Arholiad Digidol
30% o'r cymhwyster: 80 marc

Bydd yr arholiad ar-sgrin yn gofyn i chi ddangos a chymhwyso eich gwybodaeth a'ch dealltwriaeth o'r egwyddorion, defnyddiau, offer a thechnegau a ddefnyddir mewn Dylunio a Thechnoleg. Bydd cymysgedd o gwestiynau ysgrifennu atebion byr, strwythuredig ac estynedig ar wybodaeth graidd a chynnwys sy'n benodol i'ch llwybr dewisol.

**Uned 2** – Project Dylunio: Her Gyd-destunol
Math o Asesiad: Asesiad di-arholiad
70% o'r cymhwyster: 100 marc

Mae'r uned hon wedi'i llunio i gynnig cyfle i chi ddatrys problemau 'bywyd go iawn' drwy ddylunio a gwneud cynhyrchion neu systemau sy'n ymateb i anghenion, dymuniadau a gwerthoedd y marchnadoedd targed.

Bydd gofyn i chi nodi cyfleoedd dylunio, cynhyrchu briff a manyleb dylunio clir, creu datrysiadau arloesol, cynhyrchu prototeipiau terfynol o safon a gwerthuso eu haddasrwydd ar gyfer anghenion eu defnyddwyr bwriadedig.

### PA SGILIAU FYDDAF YN EU DATBLYGU?

Bydd astudio Ffasiwn a Thecstiliau yn eich galluogi i ddatblygu amrywiaeth eang o sgiliau trosglwyddadwy ar gyfer addysg Bellach, gwaith a bywyd:

- Meddwl yn greadigol ac arloesol
- Defnyddio dychymyg ac arbrofi
- Gallu beirniadu a mireinio eich syniadau eich hun
- Gwybodaeth a dealltwriaeth o'r holl weithgareddau a dylanwadau dylunio a thechnolegol
- Sgiliau gwneud penderfyniadau a chyfathrebu
- Datblygu prototeipiau llawn dychymyg a swyddogaethol o ansawdd uchel

### GYRFAOEDD YM MAES DYLUNIO A THECHNOLEG

Mae'r cymhwyster hwn yn darparu Sylfaen addas ar gyfer astudio Dylunio a Thechnoleg ar lefel Safon Uwch, a fyddai'n rhoi cyfle i chi astudio amrywiaeth o gyrsiau yn y brifysgol.

Mae yna lawer o yrfaoedd sy'n dod o astudio Dylunio a Thechnoleg, mae rhai wedi'u rhestru isod:

Pensaerniaeth: pensaer, technegydd, peiriannydd adeiladol, pensaer mewnol, arbenigwr CAD, syrfëwr, rheolwr project, pensaer llongau.

Ffasiwn: dylunydd tecstiliau, dylunydd ffasiwn, peiriannydd tecstiliau, gwniyddes, dylunydd gemwaith, dylunydd gwisgoedd, gof arian, technolegydd.

Dylunio Graffig: dylunydd graffig, dylunydd gwe, dylunydd UI / UX, datblygwr gemau, cyfryngau Digidol.

Dylunio Sustemau: peiriannydd dylunio electronig, peiriannydd mecanyddol, dylunydd cylched, pensaer meddalwedd, rhaglennydd meddalwedd, dylunydd goleuo.

Dylunio Cynnyrch: dylunydd cynnyrch, dylunydd dodrefn, dylunydd ffasiwn, dylunio hunaniaeth brand, dylnydd cegin, ergonomegydd, dylunydd diwydiannol.

Peirianneg: mecanyddol, trydanol, adeiladol, sifil, awyrofod, modurol, egni, adnwyddadwy, mecanydd, roboteg, datblygu defnyddiau.

Adeiladu: saer coed, asiedydd, gof, gwneuthurwr metel, trydanwr, plymwr, rheolwr project, rheolwr adeiladu, rheolwr iechyd a diogelwch.

**Am wybodaeth pellach cysylltwch â:**

**Miss Sioned Williams**

# TGAU
# Fashion and Textiles

Through studying GCSE Design and Technology: Fashion and Textiles you will be prepared to participate confidently and successfully in an increasingly technological world; and be aware of, and learn from, wider influences on design and technology, including historical, social/cultural, environmental and economic factors.

The course will offer you the opportunity to solve real problems by designing and making products or systems.

## HOW WILL I BE ASSESSED?

**Unit 1** – On screen exam
Assessment Type: Digital examination
30% of qualification: 80 marks

The on-screen exam will require you to demonstrate and apply your knowledge and understanding of the principles, materials, tools and techniques used in Design and Technology. There will be a mix of short answer, structured and extended writing questions on both core knowledge and content that is specific to your chosen pathway.

**Unit 2** – Design Project: Contextual Challenge
Assessment Type: Non-exam assessment
70% of qualification: 100 marks

This unit is designed to give you the opportunity to solve 'real life' problems by designing and making products or systems that respond to your selected target markets' needs, wants and values.

You will be required to identify design opportunities, produce a clear design brief and specification, create innovative solutions, produce quality final prototypes and evaluate their suitability for their intended users' needs.

## WHAT SKILLS WILL I DEVELOP?

Studying Fashion and Textiles will enable you to develop a wide range of transferable skills for further education, work and life:

- Creative and innovative thinking
- Use of imagination and experimentation
- Ability to critique and refine your own ideas
- Knowledge and Understanding of all design and technological activity and influences
- Decision making and communication skills
- Develop high quality, imaginative and functional prototypes

## CAREERS IN DESIGN AND TECHNOLOGY

This qualification provides a suitable foundation for the study of Design and Technology at A-level which would allow you the opportunity to study a range of courses at university.

There are many careers that come from studying Design and Technology, a few are listed here:

Architecture: architect, technician, structural engineer, interior architect, CAD specialist, surveyor, project manager, naval architect.

Fashion: textile designer, fashion designer, textile engineer, dressmaker, jewellery designer, costume designer, silversmith, technologist.

Graphic Design: graphic designer, web designer, UI/UX designer, games developer, digital media.

Systems Design: electronic design engineer, mechanical engineer, circuit designer, software architect, software programmer, lighting designer.

Product Design: product designer, furniture designer, fashion designer, brand identity design, kitchen designer, ergonomist, industrial designer.

Enginerering: mechanical, electrical, structural, civil, aerospace, automotive, renewable energy, mechanic, robotics, material development.

Construction: carpenter, joiner, blacksmith, metal fabricator, electrician, plumber, project manager, construction manager, health and safety manager.

**For further information, contact:**

**Miss Sioned Williams**

# TGAU
# Dylunio Cynnyrch

Drwy astudio TGAU Dylunio a Thechnoleg: Dylunio Cynnyrch byddwch yn barod i gymryd rhan yn hyderus a llwyddiannus mewn byd sy'n fwyfwy technolegol; a byddwch yn ymwybodol o'r hyn sy'n dylanwadu'n ehangach ar ddylunio a thechnoleg, ac yn dysgu gan y dylanwadau hynny. Mae'r rhain yn cynnwys ffactorau hanesyddol, cymdeithasol / diwylliannol, amgylcheddol ac economaidd.

Bydd y cwrs yn cynnig cyfle i chi ddatrys problemau go iawn drwy ddylunio a gwneud cynhyrchion neu systemau.

### SUT BYDDAF YN CAEL FY ASESU?

**Uned 1** - Arholiad ar-sgrin
Math o Asesiad: Arholiad Digidol
30% o'r cymhwyster: 80 marc

Bydd yr arholiad ar-sgrin yn gofyn i chi ddangos a chymhwyso eich gwybodaeth a'ch dealltwriaeth o'r egwyddorion, defnyddiau, offer a thechnegau a ddefnyddir mewn Dylunio a Thechnoleg. Bydd cymysgedd o gwestiynau ysgrifennu atebion byr, strwythuredig ac estynedig ar wybodaeth graidd a chynnwys sy'n benodol i'ch llwybr dewisol.

**Uned 2** – Project Dylunio: Her Gyd-destunol
Math o Asesiad: Asesiad di-arholiad
70% o'r cymhwyster: 100 marc

Mae'r uned hon wedi'i llunio i gynnig cyfle i chi ddatrys problemau 'bywyd go iawn' drwy ddylunio a gwneud cynhyrchion neu systemau sy'n ymateb i anghenion, dymuniadau a gwerthoedd y marchnadoedd targed.

Bydd gofyn i chi nodi cyfleoedd dylunio, cynhyrchu briff a manyleb dylunio clir, creu datrysiadau arloesol, cynhyrchu prototeipiau terfynol o safon a gwerthuso eu haddasrwydd ar gyfer anghenion eu defnyddwyr bwriadedig.

### PA SGILIAU FYDDAF YN EU DATBLYGU?

Bydd astudio Ffasiwn a Thecstiliau yn eich galluogi i ddatblygu amrywiaeth eang o sgiliau trosglwyddadwy ar gyfer addysg Bellach, gwaith a bywyd:

- Meddwl yn greadigol ac arloesol
- Defnyddio dychymyg ac arbrofi
- Gallu beirniadu a mireinio eich syniadau eich hun
- Gwybodaeth a dealltwriaeth o'r holl weithgareddau a dylanwadau dylunio a thechnolegol
- Sgiliau gwneud penderfyniadau a chyfathrebu
- Datblygu prototeipiau llawn dychymyg a swyddogaethol o ansawdd uchel

### GYRFAOEDD YM MAES DYLUNIO A THECHNOLEG

Mae'r cymhwyster hwn yn darparu Sylfaen addas ar gyfer astudio Dylunio Cynnyrch ar lefel Safon Uwch, a fyddai'n rhoi cyfle i chi astudio amrywiaeth o gyrsiau yn y brifysgol.

Mae yna lawer o yrfaoedd sy'n dod o astudio Dylunio a Thechnoleg, mae rhai wedi'u rhestru isod:

Pensaerniaeth: pensaer, technegydd, peiriannydd adeiladol, pensaer mewnol, arbenigwr CAD, syrfëwr, rheolwr project, pensaer llongau.

Ffasiwn: dylunydd tecstiliau, dylunydd ffasiwn, peiriannydd tecstiliau, gwniyddes, dylunydd gemwaith, dylunydd gwisgoedd, gof arian, technolegydd.

Dylunio Graffig: dylunydd graffig, dylunydd gwe, dylunydd UI / UX, datblygwr gemau, cyfryngau Digidol.

Dylunio Sustemau: peiriannydd dylunio electronig, peiriannydd mecanyddol, dylunydd cylched, pensaer meddalwedd, rhaglennydd meddalwedd, dylunydd goleuo.

Dylunio Cynnyrch: dylunydd cynnyrch, dylunydd dodrefn, dylunydd ffasiwn, dylunio hunaniaeth brand, dylnydd cegin, ergonomegydd, dylunydd diwydiannol.

Peirianneg: mecanyddol, trydanol, adeiladol, sifil, awyrofod, modurol, egni, adnwyddadwy, mecanydd, roboteg, datblygu defnyddiau.

Adeiladu: saer coed, asiedydd, gof, gwneuthurwr metel, trydanwr, plymwr, rheolwr project, rheolwr adeiladu, rheolwr iechyd a diogelwch.

**Am wybodaeth pellach cysylltwch â:**

**Miss Sian Alun Jones**

# GCSE
# Product Design

Through studying GCSE Design and Technology: Product Design you will be prepared to participate confidently and successfully in an increasingly technological world; and be aware of, and learn from, wider influences on design and technology, including historical, social/cultural, environmental and economic factors.

The course will offer you the opportunity to solve real problems by designing and making products or systems.

## HOW WILL I BE ASSESSED?

**Unit 1** – On screen exam
Assessment Type: Digital examination
30% of qualification: 80 marks

The on-screen exam will require you to demonstrate and apply your knowledge and understanding of the principles, materials, tools and techniques used in Design and Technology. There will be a mix of short answer, structured and extended writing questions on both core knowledge and content that is specific to your chosen pathway.

**Unit 2** – Design Project: Contextual Challenge
Assessment Type: Non-exam assessment
70% of qualification: 100 marks

This unit is designed to give you the opportunity to solve 'real life' problems by designing and making products or systems that respond to your selected target markets' needs, wants and values.

You will be required to identify design opportunities, produce a clear design brief and specification, create innovative solutions, produce quality final prototypes and evaluate their suitability for their intended users' needs.

## WHAT SKILLS WILL I DEVELOP?

Studying Product Design will enable you to develop a wide range of transferable skills for further education, work and life:

- Creative and innovative thinking
- Use of imagination and experimentation
- Ability to critique and refine your own ideas
- Knowledge and Understanding of all design and technological activity and influences
- Decision making and communication skills
- Develop high quality, imaginative and functional prototypes

## CAREERS IN DESIGN AND TECHNOLOGY

This qualification provides a suitable foundation for the study of Design and Technology at A-level which would allow you the opportunity to study a range of courses at university.

There are many careers that come from studying Design and Technology, a few are listed here:

Architecture: architect, technician, structural engineer, interior architect, CAD specialist, surveyor, project manager, naval architect.

Fashion: textile designer, fashion designer, textile engineer, dressmaker, jewellery designer, costume designer, silversmith, technologist.

Graphic Design: graphic designer, web designer, UI/UX designer, games developer, digital media.

Systems Design: electronic design engineer, mechanical engineer, circuit designer, software architect, software programmer, lighting designer.

Product Design: product designer, furniture designer, fashion designer, brand identity design, kitchen designer, ergonomist, industrial designer.

Enginerering: mechanical, electrical, structural, civil, aerospace, automotive, renewable energy, mechanic, robotics, material development.

Construction: carpenter, joiner, blacksmith, metal fabricator, electrician, plumber, project manager, construction manager, health and safety manager.

**For further information, contact:**

**Miss Sian Alun Jones**

# TGAU – Astudiaethau Crefyddol

**CYFLWYNIAD**

Pam astudio Astudiaethau Crefyddol? Oherwydd ei fod yn berthnasol, a bydd bob amser yn berthnasol. Mae'r mwyafrif o boblogaeth y byd yn grefyddol; Mae TGAU Astudiaethau Crefyddol yn eich helpu chi i ddeall rhai o'r credoau a'r dysgeidiaethau sy'n greiddiol i fywydau pobl. Byddwch chi hefyd yn dysgu am agweddau a safbwyntiau anghrefyddol gan fod hyn yn gynyddol berthnasol yn y byd modern. Nid oes diwrnod yn mynd heibio lle nad oes cyfeiriad at grefydd neu destun moesegol ar y newyddion, felly drwy ddewis TGAU Astudiaethau Crefyddol, byddwch chi'n fwy gwybodus am y materion pwysig hyn!

**BETH FYDDAF YN EI ASTUDIO?**

Mae TGAU Astudiaethau Crefyddol yn cynnwys pedair uned. Bydd dwy ohonyn nhw'n cael eu harholi gan asesiad di-arholiad.

**UNED 1 - Credoau, dysgeidiaethau ac arferion crefyddol ac anghrefyddol** - yn yr uned hon, byddwch chi'n dysgu'n gyntaf am natur cred (yr hyn rydyn ni'n ei olygu gan gred a pham mae pobl yn dewis bod yn grefyddol neu'n anghrefyddol) ac yna byddwch chi'n mynd ymlaen i edrych ar amrywiaeth o gredoau, dysgeidiaethau ac arferion allweddol yn ymwneud â safbwyntiau crefyddol ac anghrefyddol, gan gynnwys credoau am fywyd a marwolaeth, hunaniaeth, ymdeimlad o berthyn, moesoldeb a rhoi credoau ar waith. Byddwch chi'n dysgu'r cynnwys hwn o safbwynt Cristnogol neu Gatholig, safbwynt un crefydd arall yn y byd ac o safbwyntiau anghrefyddol.

**UNED 2 - Crefydd a pherthnasoedd** - Mae Uned 2 yn asesiad di-arholiad sy'n golygu y byddwch chi'n dysgu am berthnasoedd ac yna'n cynnal ymchwiliad i destun sy'n ymwneud â hwn, gan archwilio safbwyntiau crefyddol ac anghrefyddol.

**UNED 3 - Rolau, hawliau a chyfrifoldebau** - Mae Uned 3 yn caniatau i chi archwilio themau crefyddol allweddol, gan gynnwys stiwardiaeth, hawliau anifeiliaid, rhyddid, mynegiant crefyddol, defnyddio cyfoeth personol, a'r testunau moeseg meddygol o ran erthylu ac ewthanasia. Fel yn Uned 1, byddwch chi'n dysgu'r rhain o safbwynt Cristnogol neu Gatholig ac hefyd o safbwynt un crefydd arall yn y byd, yn ogystal ag edrych ar safbwyntiau anghrefyddol.

**UNED 4 - Crefydd ac hawliau dynol** - Mae Uned 4 yn asesiad di-arholiad arall. Yn gyntaf, byddwch chi'n dysgu am rai credoau, dysgeidiaethau, arferion a safbwyntiau sy'n ymwneud a hawliau dynol ac yna byddwch chi'n cwblhau asesiad di-arholiad sy'n archwilio gwaith elusennau a sefydliadau sy'n ymgyrchu dros hawliau dynol.

**SUT BYDDAF YN CAEL FY ASESU?**

**Uned 1** Arholiad 75-munud, 60 marc, 30% o'r cymhwyster
**Uned 2** Asesiad di-arholiad, 6 awr, 20% o'r cymhwyster
**Uned 3** Arholiad 75-munud, 60 marc, 30% o'r cymhwyster
**Uned 4** Asesiad di-arholiad, 6 awr, 20% o'r cymhwyster

**PA SGILIAU FYDDAF YN EU DATBLGU?**

Mae Astudiaethau Crefyddol yn eich caniatau i ehangu eich dealltwriaeth o wahanol bobl a'r ffordd maen nhw'n byw eu bywydau, gan ddatblygu goddefgarwch ac empathi. Mae natur academaidd y pwnc yn eich helpu i ddatblygu amrywiaeth o sgiliau, gan gynnwys:

- Dehongli
- Dadansoddi
- Gwerthuso
- Meddwl yn feirniadol
- Sgiliau iaith a chyfathrebu
- Myfyrio ar safbwyntiau personol

Drwy gyflwyno asesiadau di-arholiad, byddwch chi hefyd yn cael cyfleoedd i ymchwilio ac archwilio materion sy'n berthnasol yn y byd heddiw, gan ddatblygu sgiliau ymchwilio a rhyngbersonol.

**GYRFAOEDD mewn Astudiaethau Crefyddol**

Mae'r cymhwyster TGAU Astudiaethau Crefyddol yn rhoi sylfaen gadarn i chi fynd i astudio Safon Uwch Astudiaethau Crefyddol, a gall arwain at raddau amrywiol yn y brifysgol:
Diwinyddiaeth Astudiaethau Crefyddol; Athroniaeth; Gwleidyddiaeth; Athroniaeth ac Economeg.
Gall hefyd arwain at amrywiaeth eang o yrfaoedd: cyfreithiwr; swyddog yr heddlu; athro; parafeddyg; cogydd; perchennog busnes; dadansoddwr data.
Mae'r sgiliau fyddech chi'n eu cael drwy TGAU Astudiaethau Crefyddol yn golygu bod y cymhwyster yn gwbl addas i unrhyw yrfa sy'n gofyn am sgiliau meddwl yn feirniadol, trafod, a chyfathrebu da; mae'r rhan fwyaf o yrfaoedd yn gofyn am ryw gyfuniad o'r rhain!

**Am wybodaeth pellach cysylltwch â: Mrs. Miriam Amlyn**

# GCSE – Religious Studies

**INTRODUCTION**

Why study RS? Because it is, and will always be, relevant. The majority of the world's population is religious; GCSE RS helps you to understand some of the beliefs and teachings that these people live their lives by. You will also learn about non-religious attitudes and perspectives as this is increasingly relevant in the modern world. Not a day goes by where there isn't reference to religion or some ethical topic on the news, so take GCSE RS to be better informed about these important matters!

**WHAT WILL I STUDY?**

GCSE Religious Studies comprises four units, two of which are examined by non-exam assessment (NEA).

**UNIT 1 - Religious and non-religious beliefs, teachings and practices** - in this unit, first you will learn the nature of belief (what we mean by belief and why people choose to be religious or non- religious) and then go on to look at a variety of key religious and non-religious beliefs, teachings and practices, including beliefs about life and death, identity, belonging, morality and putting belief into action. You will learn this content from a Christian or Catholic perspective, the perspective of one other world religion and from non-religious perspectives.

**UNIT 2 - Religion and relationships** - Unit 2 is a non- exam assessment (NEA) meaning you will learn about relationships and then conduct an investigation into a topic relating to this, exploring religious and non-religious perspectives.

**UNIT 3 - Roles, rights and responsibilities** - Unit 3 allows you to explore key religious themes, including stewardship, animal rights, freedom of religious expression, use of personal wealth and the medical ethics topics of abortion and euthanasia. As with Unit 1, you will learn these from a Christian or Catholic perspective and also from the viewpoint of one other world religion, as well as looking at non-religious views.

**UNIT 4 - Religion and human rights** - Unit 4 is another non-exam assessment. First, you will learn some beliefs, teachings, practices and perspectives relating to human rights and then complete an NEA exploring the work of charities and organisations campaigning for human rights.

**HOW WILL I BE ASSESSED?**

**Unit 1** A 75-minute exam, 60 marks, 30% of the qualification

**Unit 2** Non-exam assessment, 6 hours, 20% of the qualification

**Units 3** A 75-minute exam, 60 marks, 30% of the qualification

**Unit 4** Non-exam assessment, 6 hours, 20% of the qualification

**WHAT SKILLS WILL I DEVELOP?**

Religious Studies allows you to broaden your understanding of different people and the way they live their lives, developing tolerance and empathy. The academic nature of the subject helps you to develop a range of skills, including:

- Interpretation
- Analysis
- Evaluation
- Critical thinking
- Debate and communication skills
- Reflection of personal views

With the introduction of NEA, you will also have opportunities to investigate and explore issues that are relevant to today's world, developing research and interpersonal skills.

**CAREERS IN Religious Studies**

GCSE Religious Studies gives you a solid foundation for studying A Level Religious Studies, which can lead you to various degrees at university:

Theology; Religious Studies; Philosophy;

PPE (Politics, Philosophy and Economics)

It can also lead to a wide range of careers: lawyer; police officer; teacher; paramedic; chef; business owner; data analyst. The skills gained in GCSE Religious Studies make it perfectly suited to any career requiring critical thinking, debate and good communication skills; most careers require some combination of these!

**For further information, contact: Mrs. Miriam Amlyn**

# TGAU - Daearyddiaeth

Daearyddiaeth yw'r astudiaeth o leoedd a'r berthynas rhwng pobl a'u hamgylcheddau. Mae daearyddwyr yn archwilio priodweddau ffisegol wyneb y ddaear a'r cymdeithasau dynol wedi'u gwasgaru ar ei draws.
Beth allai fod yn bwysicach ar gyfer ein dyfodol?

## BETH FYDDAF YN EI ASTUDIO?

**TEITL/UNED 1** - **Ein Byd Ffisegol a Dynol.**
Yma byddwch yn astudio:
- Dalgylch afonydd ac afonydd.
- Morluniau sy'n newid
- Mudo
- Newid aneddiadau

**TEITL/UNED 3** - **Ein Byd Dynamig ac Amrywiol.**
- Daearyddiaeth anghydraddoldeb
- Uchafbwyntiau ac isafbwyntiau ein tywydd
- Tywydd garw
- Newid hinsawdd parhaus
- Rheoli heriau byd-eang.

## SUT BYDDAF YN CAEL FY ASESU?

**ARHOLIAD 1** - **Uned 1 Ein Byd Ffisegol a Dynol.**
Mae hyn werth 30% o'r cymhwyster ac mae'n arholiad ysgrifenedig 1 awr 30 munud.
**ARHOLIAD 2** - **Uned 3** Ein **Byd Dynamig** ac **Amrywiol.**
Mae hyn werth 30% o'r cymhwyster ac mae'n arholiad ysgrifenedig 1 awr 30 munud.

**Asesiadau Di-arholiad** - Mae **2 dasg Asesiad Di-arholiad:**
**Uned 2 Datblygu Sgiliau Gwaith Maes** sy'n werth 25% o'r cymhwyster.
Byddwch yn cynnal ymweliad gwaith maes yn seiliedig ar destun fel, newid dros amser neu'r amgylchedd, ac yn ymchwilio i hyn mewn lleoliad a ddewisir, gan ysgrifennu ymholiad gwaith maes a fydd yn cael ei gyflwyno i CBAC.
**Uned 4 Datrysiadau Cynaliadwy,** sy'n werth 15% o'r cymhwyster.
Byddwch yn derbyn pecyn adnoddau ar fater daearyddol a byddwch hefyd yn darllen am gefndir ar y mater. Yna byddwch yn ysgrifennu adroddiad yn seiliedig ar fater byd go iawn mewn tasg gwneud penderfyniadau, gan adrodd ar ba mor gynaliadwy y mae'r gwahanol opsiynau yn debygol o fod.

## PA SGILIAU FYDDAF YN EU DATBLGU?

- Mae daearyddiaeth bob amser yn y newyddion. Byddwch yn datblygu sgiliau i ddehongli, dadansoddi a gwerthuso gwybodaeth i wneud penderfyniadau am faterion a phroblemau sy'n effeithio ar bobl a'r amgylchedd.
- Y gallu i gasglu, prosesu, dadansoddi a deall data ansoddol a meintiol a'i gyfleu i amrywiaeth o gynulleidfaoedd.
- Datblygu dadl resymegol a'i chyfleu i amrywiaeth o gynulleidfaoedd.
- Sgiliau gwaith tim ac arwain.
- Mae astudio daearyddiaeth yn eich caniatau i ddatblygu amrywiaeth o sgiliau bywyd personol, gan gynnwys rheoli amser, delio ag ansicrwydd, hyblygrwydd, creadigrwydd, datrys problemau a hunanhyder.

## GYRFAOEDD MEWN DAEARYDDIAETH

Mae cyflogwyr yn edrych yn benodol am y sgiliau trosglwyddadwy a ddatblygir drwy astudio daearyddiaeth. Mae yna gyfoeth o swyddi y gall daearyddwyr eu gwneud sy'n rhychwantu bron pob sector! Mae gan y rhan fwyaf o swyddi elfen o ddaearyddiaeth ynddynt, boed yn feddyg sy'n ymchwilio i ledaeniad clefyd neu beiriannydd sy'n dylunio cynhyrchion i ymdopi â llai o alw am blastig.

"Mae astudio daearyddiaeth yn ymwneud â mwy na dim ond dysgu lleoedd ar fap ar gof. Mae'n ymwneud a deall cymhlethdod ein byd, gan werthfawrogi amrywiaeth y diwylliannau sy'n bodoli ar draws cyfandiroedd. Ac yn y pen draw, mae'n ymwneud â defnyddio'r holl wybodaeth honno i helpu pontio gagendorau a dod â phobl ynghyd." **Barak Obama.**

**Am wybodaeth pellach cysylltwch â: Mrs. Glenda Murray**

# GCSE – Geography

Geography is the study of places and the relationships between people and their environments. Geographers explore the physical properties of the earth's surface and the human societies spread across it.
What can be more important for our future?

**WHAT WILL I STUDY?**

**TITLE/UNIT 1 - Our Physical and Human World.**
Here you will study:

- Drainage basin and rivers.
- Changing coastlines
- Migration
- Settlement Change.

**TITLE/UNIT 3 - Our Dynamic and Diverse World.**

- The geography of inequality
- The highs and lows of our weather
- Wild weather
- Continual climate change.
- Managing global challenges.

**HOW WILL I BE ASSESSED?**

**EXAM 1 - Unit 1 Our Physical and Human World.**
This is worth 30% of the qualification and is a written exam 1 hour 30 mins.
**EXAM 2 - Unit 3 Our Dynamic and Diverse World.**
This is worth 30% of the qualification and is a written exam 1 hour 30 mins.

**Non-Examination Assessments (NEA)** - There **are 2 NEA** tasks:
**Unit 2 Developing Fieldwork Skills** 25% of the qualification.
You will carry out a field work visit based on a topic such as, change over time or environment, and investigate this in a chosen location, writing a fieldwork enquiry that will be submitted to WJEC.
**Unit 4 Sustainable Solutions,** 15% of the qualification.
You will receive a resource booklet on a geographical issue and will also carry out background reading on the issue. You will then write a report based on a real-world issue in a decision-making task, reporting how sustainable the various options are likely to be.

**WHAT SKILLS WILL I DEVELOP?**

- Geography is always in the news. You will develop skills to interpret, analyse and evaluate information to make decisions about issues and problems that affect people and the environment.
- An ability to collect, process, analyse and understand qualitative and quantitative data and communicate it to a variety of audiences.
- Develop a reasoned argument and communicate it to a variety of audiences.
- Teamwork and leadership skills.
- Studying geography allows you to develop a range of personal skills for life, including time management, dealing with uncertainty, flexibility, creativity, problem solving and self-confidence.

**CAREERS IN GEOGRAPHY**

The transferable skills developed by studying geography are actively sought by employers. There is a wealth of jobs that geographers can do spanning almost every sector! Most jobs have an element of geography in them, whether a doctor investigating the spread of disease or an engineer designing products to cope with less demand for plastic.

"The study of geography is about more than just memorizing places on a map. It's about understanding the complexity of our world, appreciating the diversity of cultures that exists across continents. And in the end, it's about using all that knowledge to help bridge divides and bring people together." **Barak Obama.**

**For further information, contact: Mrs. Glenda Murray**

# TGAU - Hanes

Rydym i gyd yn byw mewn byd rhyng-gysylltiedig sy'n newid yn gyson. Mae deall digwyddiadau hanesyddol yn hanfodol i wneud synnwyr o ddigwyddiadau cyfredol. Mae TGAU Hanes yn ein cynorthwyo i gyflawni hyn drwy archwilio digwyddiadau a ffigurau arwyddocaol o'r gorffennol a'u dylanwad ar ein presennol.

### BETH FYDDAF YN EI ASTUDIO?

Mae'r cwrs TGAU Hanes yn eich caniatáu i archwilio detholiad eang ac amrywiol o destunau o wahanol gyfnodau a chymdeithasau hanesyddol. Gall myfyrwyr archwilio, dadansoddi ac asesu ffigurau a digwyddiadau hanesyddol o'r amrywiaeth eang o ddewisiadau sydd ar gael. Mae'r opsiynau hyn yn cynnwys:

**UNED 1:** Astudiaeth fanwl o hanes Cymru

Byddwch yn astudio un o chwe thestun hanesyddol er mwyn cynnal astudiaeth fanwl a fydd yn rhoi cipolwg i chi ar ddatblygiad Cymru ar adeg benodol mewn hanes.

**UNED 2:** Astudiaeth fanwl ar hanes Ewrop a/neu'r Byd

Byddwch yn astudio un o chwe thestun hanesyddol i gynnal astudiaeth fanwl a fydd yn rhoi dealltwriaeth i chi o fater yn hanes Ewrop a/neu'r byd.

**UNED 3:** Astudiaeth o gyfnod yn hanes y byd

Byddwch yn astudio un o chwe thestun hanesyddol i gynnal astudiaeth eang o gyfnod hanesyddol estynedig.

**UNED 4:** Cymdeithas sy'n newid

Byddwch yn astudio digwyddiadau â thema benodol o fewn cyfnod parhau o tua 75 – 100 mlynedd o hanes.

### SUT BYDDAF YN CAEL FY ASESU?

**UNED 1:** Arholiad ysgrifenedig: 1 awr I'W GADARNHAU.
30% o'r cymhsywter

**UNED 2:** Asesiad di-arholiad wedi'i farcio gan CBAC.
20% o'r cymhwyster

**UNED 3:** Arholiad ysgrifenedig: 1 awr 30 munud.
30% o'r cymhwyster

**UNED 4:** Asesiad di-arholiad: 4 awr
Wedi'i farcio gan y ganolfan a'i gymedroli gan CBAC.
20% o'r cymhwyster

### PA SGILIAU FYDDAF YN EU DATBLYGU?

TGAU Hanes yw'r pwnc perffaith i ddatblygu amrywiaeth eang o sgiliau trosglwyddadwy ar gyfer cyflogaeth neu astudiaeth bellach, gan gynnwys:

- Dod i gasgliadau a llunio barn
- Datrys problemau
- Sgiliau ysgrifennu
- Sgiliau ymchwilio
- Sgiliau astudio annibynnol
- Sgiliau dadansoddol a gwerthusol
- Gwneud cysylltiadau

### GYRFAOEDD MEWN 'HANES'

Mae cyflogwyr bob amser yn chwilio am bobl ifanc sy'n gallu meddwl yn feirniadol ac yn ddadansoddol, ill dau yn nodweddion allweddol haneswyr. Gall astudio TGAU Hanes eich helpu i gymryd y camau cyntaf tuag at amrywiaeth o lwybrau gyrfa. Gan gynnwys y gyfraith, newyddiaduriaeth, marchnata, adnoddau dynol a rheoli.

Mae TGAU Hanes hefyd yn lwyfan ar gyfer astudio pellach ar lefel Safon Uwch ac israddedig, naill ai mewn hanes ei hun neu mewn amrywiaeth eang o ddisgyblaethau eraill.

Gall weithredu fel carreg sylfaen ar gyfer addysg o bob math ac mae'n helpu i ddatblygu sgiliau academaidd sy'n hanfodol mewn amrywiaeth o feysydd. Mae'r rhain yn cynnwys y gallu i amsugno llawer iawn o wybodaeth, didoli cynnwys, dadansoddi ffynonellau a dehongliadau, llunio dadleuon a dod i gasgliadau cytbwys.

**Am wybodaeth pellach cysylltwch â:**

**Miss Samantha Tipton**

# GCSE - History

We all live in a constantly changing and interconnected world.  Understanding historical events is crucial for making sense of current happenings. GCSE History assists us in achieving this by examining significant events and figures from the past and their influence on our present.

### WHAT WILL I SRUDY?

The GCSE History course allows you to explore a wide and diverse selection of topics from various historical periods and societies. Students can examine, analyse, and assess historical figures and events from the extensive array of choices available. These options include:

**UNIT 1:** An in-depth study on Welsh history

You will study one of six historical topics to undertake an in-depth study that will provide them with an insight into the development of Wales at a specific point in time.

**UNIT 2:** An in-depth study on European and/or World history

You will study one of six historical topics to undertake an in-depth study that will provide them with an understanding of an issue in European and/or world history.

**UNIT 3:** A study of a period in world history

You will study one of six historical topics to undertake a breadth study of an extended historical period.

**UNIT 4:** A changing society

You will undertake a study of themed events within a continuous period of C.75-100 years of history.

### HOW WILL I BE ASSESSED?

**UNIT 1:** Written examination: 1 hour TO BE CONFIRMED
